Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 12.02.24 |
| **Pwnc / Subject:** | **Strwythur y Flwyddyn Ysgol** |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

Dewiswch bob un sy'n berthnasol i chi o'r canlynol.

☐ 17 oed ac yn iau
☐ 18 oed ac yn hŷn
☐ Gweithlu addysg
☐ Sector twristiaeth
☐ Sector gofal plant
☐ Gwaith amser llawn (nodwch)
☐ Gwaith rhan-amser (nodwch)
☐ Rhiant neu ofalwr (mae'r term 'rhiant' wedi cael ei ddefnyddio fel llaw fer i gynnwys mamau, tadau, gofalwyr maeth, rhieni sy'n mabwysiadu, llys-rieni, rhieni sy'n 'berthynas', neiniau a theidiau a gwarcheidwaid)
✓ Arall

**Cyflwyniad**

At ei gilydd, rydym yn cefnogi'r cynigion i ddylunio'r flwyddyn ysgol yn well. Er ein bod yn cydnabod nad oes unrhyw ymchwil glir ar effaith y cynigion, mae darparwyr a gweithgarwch arolygu'n dweud wrthym fod disgyblion yn aml yn llithro'n ôl yn eu dysgu a'u medrau ar ôl gwyliau hir dros yr haf a bod tymhorau ysgol hir yn achosi blinder ymhlith dysgwyr a staff. Felly, credwn y bydd ailddosbarthu cyfnod bach o'r gwyliau haf ac amseroedd tymor mwy cyson yn cynorthwyo ysgolion wrth gynllunio a chyflwyno'u cwricwlwm, a gobeithio lleihau blinder ymhlith dysgwyr a staff trwy gydol y flwyddyn.

Teimlwn y bydd byrhau gwyliau haf ysgolion yn arbennig yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr sydd dan anfantais yn economaidd gymdeithasol, y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a disgyblion sy'n mynychu ysgolion Cymraeg nad ydynt yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Bydd y gwyliau haf byrrach yn helpu lliniaru yn erbyn colli dysgu ar gyfer disgyblion ac yn helpu cefnogi parhad gwell mewn dysgu i mewn i dymor yr hydref. Dylai hefyd helpu rhywfaint i leihau effaith newid y drefn, er enghraifft ar gyfer dysgwyr ag ADY.

Rydym yn cefnogi'r opsiynau a ddarperir fel rhan o Opsiwn 2. Rydym yn cytuno â thynnu wythnos o wyliau'r haf a defnyddio hynny i ymestyn y gwyliau adeg hanner tymor yr hydref. Rydym hefyd yn meddwl y byddai'r hyblygrwydd i wahanu gwyliau'r gwanwyn oddi wrth wyliau'r Pasg yn fanteisiol o ran rhoi cysondeb i hyd amseroedd y tymhorau. Bydd hyn hefyd yn rhoi cysondeb i ysgolion, yn enwedig wrth gynllunio a chynorthwyo disgyblion yn ystod blynyddoedd arholiadau.

Rydym yn cefnogi'n fras y cynnig ar gyfer cam 2 opsiwn 3 i barhau i ddarparu amseroedd cyson o ran y tymhorau a lleihau'r amser y mae disgyblion i ffwrdd o'r ysgol yn ystod gwyliau'r haf. Fodd bynnag, mae angen ystyried effaith y cynnig hwn ar ddysgwyr ac ysgolion yn ystod cyfnodau arholiadau yn ofalus. Mae hyn hefyd yn cynnwys effeithiau posibl rhyddhau canlyniadau arholiadau ar yr un diwrnod.

Rydym hefyd o'r farn y byddai'n fuddiol ystyried y canllawiau ar sut bydd y cynigion hyn yn cael eu rhoi ar waith ledled Cymru. Ar hyn o bryd, er bod y gyfraith yn datgan bod yn rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethol ysgolion weithio gyda'i gilydd i geisio cadw dyddiadau tymhorau mor gyson ag y bo modd, mae amrywiadau i hyn ar gyfer rhai gwyliau. Teimlwn y byddai'n fuddiol i Lywodraeth Cymru roi canllawiau i ysgolion ar ddyddiadau tymhorau i gyfyngu ar amrywiadau i wyliau ledled Cymru.

Teimlwn y dylai'r canllawiau ynglŷn â defnyddio diwrnodau HMS a dyddiadau dechrau amrywiol i'r flwyddyn ysgol gael eu hystyried yn ofalus. Yn aml, ymestynnir llawer o wyliau ysgol hyd yn oed ymhellach trwy ychwanegu diwrnodau HMS a dyddiadau dechrau amrywiol ar ddechrau tymor yr hydref. Er enghraifft, mewn rhai achosion, mae ysgolion ar gau i ddisgyblion am bron i saith wythnos yn yr haf, gyda diwrnodau HMS a dyddiadau dechrau amrywiol i'r flwyddyn ysgol yn ychwanegol.

Nodom yn ein hymateb i'r ymgynghoriad am y diwrnodau HMS ychwanegol ar gyfer 2022 i 2025, er ei bod yn bwysig rhoi hyblygrwydd i ysgolion ynghylch amseriad y diwrnod HMS, mae angen i arweinwyr ystyried amseriad gwirioneddol y diwrnod HMS yn ofalus. Teimlwn y dylai ysgolion osgoi ymestyn gwyliau'r haf gan fod hyn yn ymestyn egwyl o'r ysgol sydd eisoes yn hir. Credwn hefyd y dylai'r diwrnod gael ei gymryd fel diwrnod HMS yn hytrach na chyfres o sesiynau cyfnos i sicrhau ymagwedd gyson ar y blaenoriaethau allweddol. Mae gan sesiynau cyfnos y potensial i wanhau'r ffocws ar y blaenoriaethau allweddol. Rydym yn meddwl y dylid gwasgaru diwrnodau HMS trwy gydol y flwyddyn academaidd i sicrhau bod y diwrnodau'n cael eu defnyddio'n effeithiol gan arweinwyr i gynllunio, datblygu a gwerthuso. Ni ddylid eu grwpio gyda'i gilydd gan arwain at wyliau estynedig i ffwrdd o'r ysgol i ddisgyblion, er enghraifft deuddydd neu dridiau ym mis Gorffennaf neu fis Medi, cyn neu ar ôl gwyliau hir yn yr haf. Teimlwn hefyd y dylai ysgolion sicrhau bod eu rhieni'n cael eu hysbysu'n dda, mewn modd amserol am y dyddiadau HMS i'w galluogi i drefnu anghenion gofal plant. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ysgolion yn rhannu dyddiadau gyda rhieni bron i flwyddyn ymlaen llaw.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1** – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gellid cynllunio'r calendr ysgol yn well i gefnogi'r ffordd yr ydym yn byw, yn dysgu ac yn gweithio heddiw?

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | ✓ | Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |

**Cwestiwn 2** – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gellid cynllunio'r calendr ysgol yn well i gefnogi dysgwyr sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn well?

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | ✓ | Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |

**Cwestiwn 3** – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gellid cynllunio'r calendr ysgol yn well i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)?

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | ✓ | Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |

**Cwestiwn 4** – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gellid cynllunio'r calendr ysgol yn well i gefnogi lles athrawon neu ddysgwyr a lleddfu blinder?

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | ✓ | Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |

**Cwestiwn 5** – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chael wythnos o wyliau ychwanegol (wedi'i chymryd o wyliau'r haf) i rannu'r tymor hiraf (hydref)?

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |

**Cwestiwn 6** – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chael yr hyblygrwydd i wahanu egwyl y gwanwyn oddi wrth wyliau cyhoeddus y Pasg?

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |

**Cwestiwn 7** – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chael wythnos o wyliau ychwanegol ym mis Mai neu fis Mehefin (wedi'i chymryd o wyliau'r haf a'i hychwanegu at y gwyliau presennol ym mis Mai) i wneud hyd y tymhorau yn gyfartal?

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |

**Cwestiwn 8** – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chynnal diwrnodau canlyniadau Safon Uwch, UG a TGAU yn yr un wythnos?

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |

**Cwestiwn 9** – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ag Opsiwn 1: cynnal y calendr ysgol presennol?

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ✓ |

**Cwestiwn 10** – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ag Opsiwn 2 a'r cyfarwyddyd drafft arfaethedig: calendr ysgol gyda 2 wythnos o wyliau yn yr hydref, gwyliau yn y gwanwyn tua'r un pryd bob blwyddyn (er gwaethaf pryd mae'r Pasg) a 5 wythnos o wyliau yn yr haf?

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | ✓ | Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |

**Cwestiwn 11** – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ag Opsiwn 3: calendr ysgol gyda 2 wythnos o wyliau yn yr hydref, gwyliau yn y gwanwyn tua'r un pryd bob blwyddyn (er gwaethaf pryd mae'r Pasg), 2 wythnos o wyliau ym mis Mai a 4 wythnos o wyliau yn yr haf?

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |

**Cwestiwn 12** – Ar gyfer 2025 i 2026, ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dyddiadau tymhorau arfaethedig fel yr amlinellir ar gyfer Opsiynau 2 a 3?

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | ✓ | Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |

**Cwestiwn 13** – Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion ar y Gymraeg? Mae gennym ni ddiddordeb yn benodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol?

**Sylwadau ategol**

At ei gilydd, credwn y bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Ar hyn o bryd, yn aml, mae disgyblion nad ydynt yn dod o gartrefi Cymraeg yn cael cyfleoedd cyfyngedig i ddefnyddio neu gynnal eu medrau Cymraeg trwy gydol y cyfnodau gwyliau. Yn aml, mae'r gwyliau haf presennol yn golygu bod medrau Cymraeg llawer o ddisgyblion yn llithro'n ôl, sy'n golygu bod angen i ysgolion dreulio amser dysgu gwerthfawr yn ystod tymor yr hydref i gael disgyblion i ddal i fyny â'r man roeddent wedi'i gyrraedd ar ddiwedd tymor yr haf. Byddai gwyliau haf byrrach yn lleddfu rhywfaint ar y broblem hon.

**Cwestiwn 14** – Yn eich barn chi, a ellid ffurfio neu newid y cynigion er mwyn:

- cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Sylwadau ategol**

Credwn y bydd y cynigion yn cefnogi cynnydd dysgwyr yn y Gymraeg. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol ar wahân i'r cynigion hyn i Lywodraeth Cymru ddarparu cymorth a chanllawiau ar sut gall dysgwyr fanteisio ar ddarpariaeth Gymraeg yn ystod unrhyw wyliau ysgol. Byddai hyn hefyd yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Cwestiwn 15** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi:

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Gweler y sylwadau yn ein cyflwyniad. |

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐